| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD:** | 22 Hydref 2009 |
| **TEITL:** | Cais C09D/0108/44/R4 – Defnyddio adeilad presennol i storio, didoli a throsglwyddo deunyddiau wedi'u hailgylchu ynghyd â defnydd ystorfa a swyddfeydd presennol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Ystyried penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog i ganiatáu'r cais. |
| **ARGYMHELLIAD:** | Derbyn yr argymhelliad, sef caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau. |
| **AWDUR:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn gan fod y nifer angenrheidiol o aelodau wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno i'r cais gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog i ganiatáu'r cais.

1.2 Nid yw'r adroddiad yma yn rhoi manylion ynglŷn â sut aseswyd y cais gan fod adroddiad cynllunio manwl yn atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad cynllunio yn cynnwys cyfeiriad at yr holl wybodaeth berthnasol sydd wedi dod i law ers i'r cais gael ei gyflwyno, gan gynnwys y rhestr o bolisïau cynllunio perthnasol mwyaf diweddar, yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol. Yn ychwanegol i hyn mae'r adroddiad cynllunio hefyd yn cynnwys amodau cynllunio llawn.

## 2. CASGLIADAU

2.1 Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio Canolog ganiatáu'r cais, yn ddarostyngedig i amodau, yn unol ag argymhelliad y Swyddogion. Credir bod y penderfyniad yma yn unol â pholisïau cynllunio perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â chanllawiau cynllunio rhanbarthol a chenedlaethol, ac nad oes yna felly unrhyw gyfiawnhad i wrthod y cais.

2.2 Credir felly y byddai gwyrdroi penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog yn groes i bolisiau cynllunio lleol sydd ond yn ddiweddar wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn. Byddai gwrthod y cais hefyd yn gwyro oddi wrth ganllawiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol. Gall hyn danseilio'r Cyngor o ran ei brosesau cynllunio.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Cyngor yn caniatáu'r cais, yn ddarostyngedig i amodau, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog.

## 4. ATODIADAU

i) Adroddiad Pwyllgor
ii) Atodiad ‘1’ - Cofnodion Pwyllgor Cynllunio Ardal Dwyfor 15 Mehefin 2009
iii) Atodiad ‘2’ - Cofnodion Pwyllgor Cynllunio Canolog 8 Medi 2009
iv) Atodiad ‘3’ - Cynlluniau, manylion a sylwadau perthnasol i’r cais
v) Atodiad ‘4’ - Polisiau perthnasol y CDUG
vi) Atodiad ‘5’ - Gohebiaethau a dderbyniwyd dros y cyfnod

## 5. PAPURAU CEFNDIR

i) Ffeil Cais Cynllunio Rhif C09D/0108/44/R4
ii) Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009
iii) Deddfau Cynllunio
iv) Polisi Cynllunio Cymru Mawrth 2002
v) Nodyn Cyngor Technegol Cymru 11 – Sŵn
vi) Nodyn Cyngor Technegol Cymru 12 – Dyluniad
vii) Nodyn Cyngor Technegol Cymru 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd
viii) Nodyn Cyngor Technegol Cymru 18 – Trafnidaeth
ix) Nodyn Cyngor Technegol Cymru 21 – Gwastraff